

ISSN 2053-5171
Rhifyn 11
Hydref 2017

Herio Materion Crefyddol

Jeff Astley
ar Ian Ramsey ar Iaith
Grefyddol

Samuel Tranter
ar Protestaniaid a
Chyfraith Naturiol:
Gwrthod ac Adferiada

James Francisar
ar Naratifau Cynharaf
am y Pasg

Emily Pollard
ar Thomas Aquinas ac
Achos Cyfiawn dros Ryfel

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 11 Hydref 2017

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Ian Ramsey ar Iaith Grefyddol Jeff Astley | 2 |
| Protestaniaid a Chyfraith Naturiol: Gwrthod ac Adferiad Samuel Tranter | 9 |
| Naratifau Cynharaf am y Pasg James Francis | 17 |
| Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel Emily Pollard | 24 |

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Warwick)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Warwick, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Dr Ian Jones (St Peter's Saltley Trust)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Professor William K. Kay (Prifysgol Caer)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Warwick)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Yr Athro Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Y Gwir Barchedig Ddr David Walker (Prifysgol Warwick)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.ap-sion@warwick.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

St Peter's Saltley Trust

Grays Court

3 Nursery Raod

Edgbaston

Birmingham B15 3JX

Telephone 0121 427 6800

E- mail: director@saltleytrust.org.uk

Website: www.saltleytrust.org.uk

Noddir y cyfieithiad gan Mudiad Addysg Grefyddol Cymru (MAGC).

Ian Ramsey ar Iaith Grefyddol

Jeff Astley

Mae'r erthygl hon yn arolygu'n feirniadol yr ystyriaeth o iaith grefyddol ddisgrifiadol a ddarparwyd gan Ian T. Ramsey.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC / EDUQAS Uned 5: Athroniaeth Crefydd, Thema 3: Iaith grefyddol (rhan 1) = Cydran 2 Athroniaeth Crefydd, Thema 4: Iaith grefyddol, C. Iaith grefyddol fel iaith anwybyddol a chymharol: Cyfran a phriodiad (St Thomas Aquinas) a goleddfeiriau a datgeliad (Ian Ramsey).

OCR Athroniaeth Crefydd, 5. Iaith Grefyddol: Negyddol, Analogyddol neu Symbolig.

AQA 1 Athroniaeth Crefydd a Moeseg, A: Athroniaeth Crefydd, Iaith Grefyddol.

Hefyd: Pob pwnc Profiad Crefyddol.

Wedi'i eni a'i fagu yn Bolton, Swydd Gaerhirfryn, roedd Ian Thomas Ramsey (1915-1972) yn athronydd crefydd a diwinydd Cristnogol rhyddfrydol a fu'n addysgu yng Nghaergrawnt a Rhydychen cyn gwasanaethu fel Esgob Durham. (Ni ddylid ei gamgymryd am Michael Ramsey, a oedd hefyd ar un adeg yn Esgob Durham, ac a ddaeth wedyn yn Archesgob Caergaint, nad oedd yn berthynas iddo.)

Damcaniaeth Ramsey o wybodaeth grefyddol

Daeth I. T. Ramsey i ddisgrifio ei athroniaeth nodweddiadol o grefydd fel 'empiriaeth ehangach', gan ddadlau na ellir cyfiawnhau cred grefyddol oni bai ei bod wedi'i seilio ar ryw fath o brofiad

crefyddol. Roedd y farn hon yn darparu ei amddiffyniad o grefydd a metaffiseg yn erbyn beirniadaeth bositifydd eu bod yn ddiystyr oherwydd nad oedd eu datganiadau'n wiriadwy trwy brofiad *synnwyr*.

Momentau o brofiad crefyddol neu 'ddirnadaeth' (greddf) yw ymateb unigolyn i 'ddatgeliadau' gweithredol (datguddiadau nad ydynt yn osodiadol) ar ran Duw. Dadleuodd Ramsey fod datgeliadau cyfochrog ym mhob maes gwybodaeth arall bron - gan gynnwys mathemateg, barddoniaeth, moesoldeb a sefyllfaoedd dynol cyffredin.


I use 'disclosure' not in relation to information, but to refer to situations about which various metaphorical

Ian Ramsey ar Iaith Grefyddol

phrases are commonly used. Such phrases, e.g., are those which speak of situations 'coming alive', 'taking on depth', situations in which 'the penny drops', where we 'see' but not with eyes of flesh, where something 'strikes us', where 'eye meets eye' and where 'hearts miss a beat'. (Ramsey, 1972, t. 115)

Mewn cyd-destunau o'r fath, mae'r 'ia yn torri' a'r 'goleuni'n gwawrio'. Sefyllfaoedd-datgelu yw'r rhain lle byddwn ni, er enghraifft, efallai yn:

- adnabod patrwm (mae Ramsey yn cyfeirio at giwb 3D a ganfyddir trwy linellau dau ddimensiwn darlun - gweler y ffigwr);
- gafael mewn syniad (dyweder am y lliw melyn, sy'n fwy nag, ac yn wahanol i, unrhyw neu bob gwrthrych melyn);
- canfod dyletswydd; neu
- adnabod rhywun arall (neu 'feddwl arall').



Yna byddwn yn ymateb i'r datgeliadau hyn gydag ymrwymiad priodol.

Yn y sefyllfa-ddatgelu *grefyddol*, gwrthrych y datgeliad (a phwnc gweithredol y datgeliad) yw Duw, wedi'i gyfyngu'n bennaf trwy natur neu hanes. Mewn datgeliad fel hwn - sy'n aml yn 'gosmig' (cwbl gynhwysol a diderfyn) - y mae pobl yn ymateb ag ymrwymiad eithaf ffydd, a hefyd yn oruchaf yn 'dod atynt eu hunain'.

Honnodd Ramsey fod pob datgeliad yn datgelu 'mwy' trosgynnol, drwy a thu hwnt i *gyfrwng empirig* ei ddatgeliad.¹ Mae'r cyfrwng hwn yn cynnwys naill ai gwrthrychau a digwyddiadau sy'n hysbys trwy brofiad synnwyr, neu'r iaith sy'n eu disgrifio. Yn achos datgeliadau o

personau, dyletswydd neu Dduw, er enghraifft, mae'r cyfryngau (yn ôl eu trefn) yn gyrff dynol a'u hymddygiad, sefyllfaoedd yn ein bywyd personol neu fywyd cymdeithasol, neu'r cyfan o'r cread ffisegol. Ni all unrhyw un o'r elfennau 'mwy' hyn gael eu dal yn ddigonol mewn iaith uniongyrchol - yn yr 'iaith ddisgrifiadol blaen, fflat' sy'n nodweddu'r cyfrwng y mae'n cael ei datgelu drwyddi.

Er mwyn siarad am y pethau 'mwy' hwn, mae angen i ni felly ddefnyddio geiriau ac ymadroddion a fydd yn ymddangos braidd yn 'od' i lawer, o'i chymharu â'r iaith fwy poblogaidd, empirig sy'n disgrifio eu cyfryngau gweladwy.

Damcaniaeth Ramsey ynghylch iaith grefyddol

Yn benodol, honnodd Ramsey fod iaith grefyddol yn aml yn cynnwys *modelau* sy'n deillio o'n profiad synnwyr o'r byd ('daioni', 'grymus', 'Tad', 'craig' - 'good', 'powerful', 'Father', 'rock', ac ati), sy'n cael eu cyfuno'n rheolaidd â *goleddfeiriau*. Adferfau neu ansoddeiriau yw'r goleddfeiriau hyn fel arfer, y mae'n hawdd anwybyddu eu harwyddocâd, fel 'anfeidrol', 'holl', 'tragwyddol' a 'nefol' - 'infinitely', 'all', 'eternal' a 'heavenly'.²

Gan mai cyfatebiaethau a throsiadau sy'n deillio o iaith y byd hwn yw'r modelau eu hunain yn eu hanfod, mae'n rhaid i'w hystyr newid pan gânt eu cymhwyso i Dduw sy'n trosgynnu'r byd hwn a'r iaith hon. Mae Ramsey'n mynnu nad yw modelau o'r fath, yn 'fodelau lluniol' - [*are not*] '*picturing models*' (Ramsey, 1971a, t. 213).

¹Dadleuodd Ramsey fod pob datgeliad yn datgelu'r un gwrthrych, oherwydd bod y realiti datgeliedig hwn oll yn rhan o Un Realiti Duw.

²Er nad yw'r goleddfeiriau bob amser yn cael eu mynegi'n eglur, maent yn cael eu hawgrymu. Felly, pan fydd pobl yn siarad am Dduw yn syml fel 'brenin' mae angen i ni (a hwythau) gofio mai '*brenin nefol*' mewn gwirionedd yw Duw.

Ian Ramsey ar Iaith Grefyddol

Nid oes gan y goleddfeiriau ystyr disgrifiadol eu hunain, mwy nag oes gan arwydd gwreiddyn sgwâr werth rhifiadol. (Os ydych chi'n amau hyn, gofynnwch i chi eich hun sut i ddatrys y sŷm: $3 + \sqrt{\quad}$.) Fel yr arwydd gwreiddyn sgwâr, mae goleddfeiriau yn dweud wrthym am *wneud* rhywbeth gyda'r gwerth sydd yn nesaf ato. Mewn gwirionedd, mae'n dweud wrthym am *wneud* dau beth.

laith grefyddol fel iaith gynrychiadol

Yn gyntaf, mae goleddfeiriau yn ein helpu i gynrychioli'r Duw sy'n drosgynol (hynny yw, i 'ddisgrifio' Duw, gystal ag y gall unrhyw iaith am bobl a natur). Gan fod Duw yn wahanol, rhaid i'n hiaith ddangos hyn. Mae modelau *cymwys* ('daioni annherfynol', 'Tad nefol', 'Craig dragwyddol', ac ati) yn dweud wrthym am nodi'r *gwahaniaeth* rhwng iaith Dduw-ddisgrifiadol a disgrifiadau arferol y byd hwn o dadau, daioni, creigiau, ac ati. Ond mae'r geiriau enghreifftiol y mae'r ymadroddion hyn hefyd yn eu cynnwys yn siarad hefyd am *debygrwydd*, oherwydd nid yw Duw yn gwbl wahanol.

Yn dechnegol, roedd Ramsey yn 'realydd beirniadol' a oedd yn credu y gellid cynrychioli'r Duw trosgynol ond heb ei ddisgrifio'n llythrennol.³ Un o'r ymadroddion a ddefnyddiai oedd y gallwn ni fod yn 'sicr mewn crefydd - *sure in religion*', yn wir 'yn sicr o Dduw - *sure of God*', ond mae'n rhaid i ni bob amser fod yn 'betrus mewn diwinyddiaeth - *tentative in theology*': yn sicr o realiti gwrthrych ein datgeliadau, ond byth yn fwy na thros dro ynghylch unrhyw gyfrif o natur y realiti hwnnw (Ramsey, 1965, t. 89).

Haerai Ramsey yn gryf fod Duw yn ddirgelwch, a honnodd mai dim ond un gair - 'gweithgaredd' ('*activity*') - y gellir ei ddefnyddio wrth sôn am Dduw gyda'r un ystyr sylfaenol ag sydd gan y gair i ni.

Rhaid i'r holl iaith arall fod yn gymwys iawn. Fel y gwelsom, gellir gwneud hyn yn benodol trwy ychwanegu geiriau sy'n oleddfeiriau. Ond gellir gwneud hefyd trwy gyfrwng cydoleddfiadau (*mutual qualification*) sy'n digwydd drwy wthio gwahanol fodolau ynghyd yn y 'gymysgedd derfysglyd o ymadroddion' - '*riotous mixture of phrases*' sydd yn arbennig o amlwg yn y Beibl ac mewn emynau (Ramsey, 1957, t. 156). Felly, pan gyfeirir at Iesu, yn emyn John Newton, nid yn unig fel bugail, ond hefyd fel craig, brawd, ffrind, proffwyd, offeiriad a brenin, gwyddom na ellir ei ystyried yn unrhyw un o'r rhain yn llythrennol (Ramsey, 1963, t. 10). Yn ôl Ramsey, mae heresi yn deillio o glymu i fodel sengl er mwyn deall (dyweder) Duw, yr eglwys neu'r iawn; tra bod uniongredd wedi'i anelu at gael pob model posibl - '*orthodoxy aimed at having every possible model*' (Ramsey, 1957, t. 170).

Eto, mae Ramsey yn caniatáu i ni fynegi rhywfaint o *ddewis* (*preference*) ymhlith modelau crefyddol. Yn wir, dyna un o brif dasgau diwinyddiaeth. Mae rhywun sy'n fodel yn well na, dyweder, bugail neu grochenydd oherwydd ei fod yn gallu dweud popeth y gall y modelau eraill hyn ei ddweud a mwy na hynny hefyd; fel hyn, mae'n gall amsugno'r mynegiant o ddau fodel neu fwy - '*A model like person is better than, say, shepherd or potter because it can say all*

³ Credai Ramsey ei fod yn cyflwyno ffurf o iaith grefyddol *gyfatebiaethol* a oedd yn annibynnol ar y fetaffiseg Tomistig o 'gyfatebiaeth bodolaeth' ('*analogy of being*') rhwng Duw a'r byd a grëwyd. Fe ddisodlodd y cyswllt hwnnw gan ei hawliad ei hun mai 'gweithgaredd' ('*activity*') yw gair a ddefnyddir yn *unystyr* am Dduw a bodau dynol. Fodd bynnag, fe allwn ddadlau: (a) na all gweithgaredd yn Nuw fod â'r un ystyr â gweithgaredd ymhlith pobl; (b) mae termau eraill y byddai'n bosib eu hystyried yn rhesymol (o leiaf) yn llythrennol yn cyfeirio at Dduw; a (c) nid yw'n bwysig mewn gwirionedd os yw *pob* iaith grefyddol ddisgrifiadol yn gymharol (neu'n ffigurol), ar yr amod y gall diwinyddiaeth - fel y dylai - geisio *nodi ei ystyr* yn rhannol, er mwyn datgelu mwy am yr estyniad neu'r newid yn ystyr y geiriau a'r ymadroddion pan gânt eu cymhwyso i Dduw.

Ian Ramsey ar Iaith Grefyddol

that these other models can say and more besides; in this way it can absorb the discourse from two or more models' (Ramsey, 1971a, t. 214).

laith grefyddol fel iaith ysgogol

Nid yn unig mae gan fodolau cymwys swyddogaeth wybyddol (ffaith-osodol) o gynrychioli natur Duw, maen nhw hefyd yn gwasanaethu'r swyddogaeth anwybyddol o ennyn datgeliad lle mae Duw yn hysbys. Mae Ramsey yn gwneud yr hawliad empirig bod y rhan fwyaf o'n modelau o Dduw yn y pen draw yn deillio o brofiadau crefyddol, yn cael eu tynnu o gyfrwng datgeliadau crefyddol. Mae Duw wedi cael ei ddatgelu i bobl 'trwy' neu 'o gwmpas' bodolaeth ac ymddygiad (neu iaith am fodolaeth ac ymddygiad) tadau, mamau, brenhinoedd neu fugeiliaid, a hyd yn oed creigiau, amddiffynfeydd, tân a gwynt.⁴ Dyna pam y gellir siarad am Dduw gan ddefnyddio delweddau o'r fath, ar yr amod eu bod wedi'u cymhwysu'n briodol - gan fod Duw yn sicr yn 'fwy' na chraig, neu hyd yn oed dad neu frenin, ac ati. Yn wir, mae Ramsey yn honni y gall pob gair, os yw'n gymwys addas arwain at ddatgelu Duw '*all words, if suitable qualified*' [*can lead to a disclosure of God*] (Ramsey, 1957, t. 80); er ei fod yn swnio'n rhyfedd braidd i awgrymu y gall unrhyw ran a phob rhan o'r greadigaeth fod yn fodel i'w gwneuthurwr – [*rather bizarre*] '*to suggest that any and every part of creation can serve as a model for its maker*' (Astley, 1984, t. 435; ond cf. Ramsey, 1971a, t. 216).

Swyddogaeth ysgogol iaith grefyddol yw cyfraniad mwyaf gwreiddiol, os nad problemus, Ramsey. Honnodd fod iaith grefyddol yn gallu arwain at brofiad crefyddol, i ddirnadaeth o Dduw. Mae defnyddwyr iaith grefyddol yn adrodd chwedlau crefyddol neu'n pentyrru

delweddau crefyddol nes bydd y geiniog yn disgyn a'r goleuni'n gwawrio wrth i'r canfyddiad ddod yn amlwg, a Duw - sydd y tu hwnt i'n holl fodolau - yn cael ei ddatgelu (er na ellir *gwarantu* datgelu byth). Mae Ramsey wedi rhoi ei fys ar nodwedd arbennig o iaith grefyddo yma, a ddisgrifir weithiau fel bod yn 'agor pobl' i fewnwelediad neu brofiad crefyddol - '*opening people up*' [*to religious insight or experience*], neu yn eu rhoi yn y 'sefyllfa briodol' i dderbyn datguddiad Duw - '*putting them in the right position*' [*to receive God's revelation*]. Yn neilltuol, ymddengys bod hyn yn swyddogaeth arwyddocaol o iaith addoli, gweddi a myfyrdod.


Yn anffodus, mae cyfrif Ramsey o'r broses hon yn aml yn ymddangos yn eithaf annaturiol. Fel hyn, mae'n haeru bod sylwi ar y geiriau 'annherfynol' a 'nefol' sy'n dilyn y geiriau 'daioni' a 'Tad' yn dweud wrthym am (yn peri i ni?) fyfyrion ar ystod o bobl o ddaioni cynyddol, neu o dadau o wahanol fathau. Mae hyn yn parhau nes bydd datgeliad yn digwydd, y byddwn drwyddo'n *deall cysyniadau* daioni annherfynol neu Dad nefol, trwy brofiad crefyddol y byddwn drwyddo yn *canfod y gwrthrych dwyfol* y mae'r iaith hon yn cyfeirio ato.

Mae'r cyfrif hwn o fecaneg y broses yn fwyaf argyhoeddiadol yn y darluniau a ddarperir gan Ramsey o fyd mathemateg. Er enghraifft, mae'n disgrifio sefyllfa lle gall pobl sydd ddim ond yn gwybod am bolygonau ddod i ddeall beth yw cylch, trwy egluro iddynt mai 'polygon â nifer annherfynol o ochrau yw cylch - *polygon with an infinite number of sides*',


⁴ Gellir adnabod Duw hefyd drwy ddatgeliad o'r gyfathrebiaeth rhwng patrymau neilltuol yn y Bydysawd a (dyweder) batrymau cariadus o ymddygiad tadol – *through a disclosure of the correspondence between certain 'patterns in the Universe' and (say) 'loving patterns of fatherly conduct'* (Ramsey, 1967, t. 266).

Ian Ramsey ar Iaith Grefyddol

neu drwy eu hannog i feddwl am *gyfres* o bolygonau. Gall y gweithredoedd hyn gynhyrchu, yn nychymyg pobl, gyfres o ffigurau gyda nifer gynyddol o ochrau - triongl, sgwâr, pentagon, hecsagon, ac ati; a gallant barhau'r dilyniant hwnnw nes eu bod yn gallu meddwl, yn reddfol, am ffigur o fath gwahanol yn gyfan gwbl (un *heb* ochrau) - [*a figure*] of a *different kind altogether* (one with *no* sides) (Ramsey, 1957, tt. 69-70; 1971a, tt. 215-16; 1973, tt. 64-5). Felly:



Mae Ramsey yn honni y gellir mewn modd tebyg ddatgelu y Duw 'annherfynnol dda' - '*infinitely good*' wrth i ni fwrw golwg ar gyfres o bobl gynyddol dda (1957, tt. 66-8). Felly:(da yn unig) A, (da iawn) B, (arbennig o dda) C, ...



Yn y ddau achos, nid term arall yn y gyfres yw'r hyn a ddatgelir (nid hyd yn oed y term diwethaf), gan nad polygon yw cylch ac nid person arall (ond gwell)

yw Duw. Fodd bynnag, mae 'polygon annherfynnol' a 'daioni annherfynnol' yn frasmcan rhesymol o'r hyn a ddatgelir - er ei bortreadu yn (iaith sydd yn y pen draw yn annigonol) polygonau rheolaidd a phobl dda.

Ond yn yr enghraifft gyntaf, nid oes unrhyw gylch go iawn yn ymddangos yn y byd, nac ar y dudalen. Dim ond y *syniad* o gylch yn gwawrio arnom. Ai dyna'r hyn oll y gall iaith grefyddol ei roi i ni hefyd? Ai dim ond datgelu'r *cysyniad* o Ddaioni Tragwyddol, heb gyflwyno unrhyw ganfyddiad go iawn gyda'r Un sy'n 'Gariad dwyfol, uwch pob cariad' - cyfieithiad Gwilym R Tilsley o '*Love Divine, All Loves Excelling*'?

A beth bynnag, a oes rhywbeth yn digwydd i bobl pan fyddant yn defnyddio'r ymadroddion crefyddol hyn, hyd yn oed mewn gweddi, sy'n debyg o gwbl i'r hyn sy'n digwydd pan fyddwch chi'n bwrw golwg ar hyd cyfres o bolygonau? A yw gweddi'o 'Dad Nefol' yn mynd â phobl *yn y ffordd hon* i foment o weledigaeth, moment o dawelwch lle mae Duw yn datgelu Duw ei hun i ni, a lle y gallant, ym mhresenoldeb Duw ddechrau mynegi eu meddyliau am Dduw, gan ddefnyddio iaith am y byd ac am berthnasoedd dynol? (cf. Ramsey, 1971b, t. 21).

Geirfa

Cyfatebiaethol (Analogical): y defnydd o'r un iaith ag ystyr debyg.

Cyfatebiaeth o fodolaeth (Analogy of being): tebygrwydd rhwng Duw fel creawdwr a chreadigaeth Duw, yn enwedig yr hyn sy'n deillio o fodau dynol yn cael eu creu ar lun a delw Duw.

Greddf (Intuition): gwybodaeth uniongyrchol am endid neu wirionedd, heb gynnwys unrhyw broses resymu ymwybodol (fel, e.e., mewn ymwybyddiaeth uniongyrchol o synnwyr).

Trosgynnol (Transcendent): yr hyn sy'n mynd y tu hwnt i gyfyngiadau ein bodolaeth, ein profiad, a'n hiaith ni.

Unystyr (Univocal): y defnydd o'r un iaith â'r un ystyr yn union.

Cysylltau

http://www.st-marys-centre.org.uk/resources/challengingreligiousissues/Issue%203_ChallengingReligiousIssues.pdf (Jeff Astley, 2013, Describing God, *Challenging Religious Issues*)

https://en.m.wikipedia.org/wiki/Ian_Ramsey (cofnod Wikipedia)

http://pracownik.kul.pl/files/10351/public/On_Ramsey_religious_language_1461573.pdf (McClendon and Smith, 1973, Ian Ramsey's model of religious language: A qualified appreciation)

Pwyntiau trafod

1. Beth yw cryfderau a gwendidau cyfrif Ramsey o rôl modelau a goleddfeiriau mewn iaith grefyddol?
2. Gwerthuswch yn feirniadol hawliad Ramsey y gallai *unrhyw* iaith, 'addas gymwysedig' ('*suitably qualified*'), wasanaethu i ennyn a chynrychioli Duw.
3. Pa ran mae'r Beibl yn ei chwarae, os yw pob iaith grefyddol yn codi trwy brofiadau datgelu?
4. Beth yw eich barn ynghylch cyfrif Ramsey o'r *mecanwaith* drwy'r hwn y mae iaith grefyddol yn ennyn datgeliad?

Cyfeiriadau

- Astley, J. (1984). Ian Ramsey and the problem of religious knowledge. *Journal of Theological Studies*, NS 35(2), 414–40.
- Evans, D. (1971). Ian Ramsey on talk about God. *Religious Studies*, VII(2), 125–40 and VII(3), 213–26. (A revised version is to be found in Evans (1980). *Faith, authenticity and morality*. Toronto: Toronto University Press, ch. 2.)
- Gill, J.H. (1976). *Ian Ramsey: To speak responsibly of God*. London: George Allen and Unwin.
- Ramsey, I.T. (1957). *Religious language: An empirical placing of theological phrases*. London: SCM Press.
- Ramsey, I.T. (1963). Theological literacy. *The Chicago Theological Seminary Register*, 53(5), 1–40 (reprinted in Ramsey, 1974).
- Ramsey, I.T. (1965). *Christian discourse: Some logical explanations*, London: Oxford University Press.
- Ramsey, I.T. (1967). Models and mystery – A reply. *Theoria to Theory*, 1(3).
- Ramsey, I.T. (1971b). *Our understanding of prayer*. London: SPCK.
- Ramsey, I.T. (1972). Facts and disclosures. *Proceedings of the Aristotelian Society*, LXXII, 115–33 (reprinted in Ramsey, 1974).
- Ramsey, I.T. (1973). *Models for divine activity*. London: SCM Press, ch. V.
- Ramsey, I.T. (1974). *Christian empiricism: Studies in philosophy and religion*, ed. J.H. Gill. London: Sheldon.
- Ramsey, I.T. (ed.). (1971a). *Words about God: The philosophy of religion*, London: SCM Press, ch. 22.

Y Parchedig Athro Jeff Astley yw Athro Alister Hardy y Profiad Crefyddol ac Ysbrydol ym Mhrifysgol Warwick, ac mae'n Athro er anrhydedd ym Mhrifysgolion Durham a York St John. Testun ei PhD oedd athroniaeth crefydd Ian Ramsey (Prifysgol Durham, 1978). Ef yw awdur y gyfrol Exploring God-talk: Using language in religion (Darton, Longman and Todd, 2004).

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol: Gwrthod ac Adferiad

Samuel Tranter

Mae'r erthygl hon yn archwilio tueddiad diweddar mewn moeseg: y tro gan feddylwyr Protestannaidd tuag at gyfraith naturiol. Mae'n ystyried pryderon Protestannaidd nodweddiadol am ymagweddau cyfraith naturiol tuag at foesoldeb, cyn ymchwilio i rai elfennau o adferiad diweddar.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC/EDUQAS Uned 2: Adran A - Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg, Thema 2: Cyfraith Naturiol Aquinas - ymagwedd grefyddol tuag at foeseg; ac Uned 4 Crefydd a Moeseg, Thema 2: Moeseg Deontolegol: Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred, A. Cyswllt synoptig: sut mae astudiaethau moeseg, dros amser, wedi dylanwadu ar ddatblygiadau mewn credoau ac arferion crefyddol ac athroniaeth crefydd.

OCR Crefydd a Moeseg, 1. Theorïau Moesegol Normodol: Ymagweddau Crefyddol, Y Gyfraith Naturiol.

AQA 1 Athroniaeth Crefydd a Moeseg, B Moeseg a Chrefydd, Theorïau moesegol Normodol.

Cyflwyniad

Gallai Cyfraith naturiol a Phrotestaniaeth ymddangos yn bwnc annhebygol. Yn sicr, mae'r ysgol 'Cyfraith Naturiol Newydd', sydd wedi bod yn gysylltiedig dros y degawdau diwethaf â John Finnis a Germain Grisez, wedi denu cryn dipyn o sylw, a digon o feirniadaeth. Eto, roedd llawer o'r drafodaeth hon yn digwydd mewn diwinyddiaeth ac athroniaeth Gatholig, ac mae cyfraith naturiol yn tueddu i gael ei hystyried fel ymagwedd

Gatholig nodedig tuag at foeseg, er ei bod yn anelu at gyffredinolrwydd ac weithiau'n denu ymdriniaeth y tu allan i'r traddodiad hwnnw - er enghraifft, mewn athroniaeth gyffreithiol. Mae llawer wedi cael ei ddweud wrth ddadlau a all ymagweddau cyfraith naturiol gymeradwyo cydsyniad cyffredinol, hyd yn oed a oes ganddynt gyrhaeddiad mor gynhwysfawr ag y mae rhai cynigwyr diweddar yn ei awgrymu (e.e. Cunningham, 2009). Sut y gellir dadlau'n

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

argyhoeddiadol i gyfraith naturiol fod yn gyffredinol ddefnyddiol os na all hyd yn oed ddod o hyd i wrandawriad mewn rhannau eraill o'r traddodiad Cristnogol?

Yn fwy diweddar, fodd bynnag, yn rhannol trwy ryngweithio â'r ymagweddau newydd hyn a gyda Sant Thomas yn uniongyrchol, mae meddylwyr *Protestannaidd* wedi dechrau ystyried perthynas eu traddodiad eu hunain â chyfraith naturiol.

Y rhesymau dros wrthod

Ar y pwynt hwn, mae angen ystyried ychydig o wrthwynebiadau Protestannaidd cyffredin i gyfraith naturiol, er mwyn gweld beth mae'r ymgais hon at adferiad yn ei hwynebu.

(1) Fe fyddai pryder cyntaf, nodweddiadol Brotestannaidd, ynghylch rhesymu cyfraith naturiol yn ymwneud â *pechod* a gwybodaeth ddynol, ac yn ystyried bod ymagwedd cyfraith naturiol yn rhy optimistaidd. Mae hyn yn ei hanfod yn feirniadaeth *epistemolegol*, sy'n honni bod pechod yn niweidio'n ddifrifol ein gallu dynol i adnabod ein hunain yn dda, ac i adnabod daioni yn hawdd ac yn gywir, heb gymorth dwyfol - hynny yw, heb ras. Y cwestiwn y mae hyn yn ei roi i gyfraith naturiol yw rhywbeth fel hyn: Hyd yn oed pe bai nodweddion cyffredinol o natur ddynol a roddodd i ni rywfaint o gynnwys moesol sylfaenol, a allwn ni eu gweld yn ddigon clir a dibynadwy (yn ein 'cyflwr syrthiedig' presennol) i weithredu arnynt, neu iddynt ffurfio sail foesebol gyffredinol?

(2) Mae pryder cysylltiedig wedi'i gysylltu'n agosach â'r pryderon cyffredinol y mae pobl wedi'u cael ynghylch cyfraith naturiol, ac mae'n debyg o fod yn fwy athronyddol na diwinyddol ei ffurf, er bod rhai diwinyddion wedi mynegi hynny hefyd - yn enwedig Stanley Hauerwas, a ystyrir

yn eang y ffigwr amlycaf ym moeseg Gristnogol ddiweddar. Bu'n feirniad diflewyn-ar-dafod ar resymu cyfraith naturiol (e.e. Hauerwas, 1983), gan bryderu bod y gyfraith naturiol yn creu cyffredinoliaeth ffug nad yw'n gynaliadwy o ystyried yr hyn yr ydym yn ei wybod am y ffordd y mae gwybodaeth a moesoldeb yn gwahaniaethu o gymuned i gymuned, ac yn cael eu trosglwyddo gan draddodiadau penodol trwy arferion penodol (yma mae'n dibynnu ar waith Alasdair MacIntyre: gweler MacIntyre, 2007). Yn ogystal, mae Hauerwas yn nodi bod gan yr eglwys Gristnogol a'i harfer(ion) ei sail benodol ei hun, yn ei naratifau ei hun ac yn cael ei llywodraethu ganddynt. Felly, ni all wneud hawl i awdurdod haniaethol mewn cyfraith naturiol, sydd ddim yn rhesymu moesol unrhyw gymuned yn benodol, heb sôn am un wedi'i llunio gan yr awdurdodau y mae Cristnogion yn honni eu bod yn normadol. Felly, ni all Cristnogion dybio bod dysgu am naturioldeb hunan-ddiogelu (sy'n ganolog i gyfraith naturiol) fod yn foesol niwtral a sylfaenol. Ochr yn ochr â hyn, mae Hauerwas yn amau bod yr hawliadau cyfraith naturiol yn aml wedi noddi trais, gan honni i wybod rhai nodweddion sylfaenol y *dylai* pawb wybod am natur ddynol a moesoldeb, gan roi rheswm i ymarfer y rhai nad yw eu ffordd o fyw yn cyd-fynd â'r nodweddion hyn. Eto i gyd, mae moeseg Gristnogol yn ymwneud ag ymrwymiad i weithredu di-drais, er bod hyn yn aml wedi cael ei anghofio.

(3) Mae trydydd pryder yn ymwneud ag effaith *ontolegol* pechod, yn ogystal â'i effaith ar ein gallu i ganfod daioni. Mae rhai Protestaniaid wedi awgrymu bod effaith y cwmp ar natur yn gyffredinol gymaint o bwys fel bod apelio at natur fel y cyfryw yn gyfeiliornus. Mae'r pryder

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

hwn am faterion sy'n ymwneud â llunio realaeth pechod yn yr hyn a allai fod yn rhybudd cryfach hyd yn oed yn erbyn y gyfraith naturiol na'r pryder am effaith epistemolegol pechod. Mae Philip G. Ziegler (2011) yn honni bod ym mhechod yr Ysgrythur, yn y lle cyntaf, ac yn wir gras, yn yr ail, yn newid strwythurau'r greadigaeth mor radical nes eu bod yn ddiystyr - mewn gwirionedd, yn beryglus o gamarweiniol - i siarad am gyfraith naturiol sy'n ddiglyfnewid.

(4) Mae pryder arall yn ymwneud â phellter ymddangosiadol iaith cyfraith naturiol oddi wrth iaith am ewyllys Duw fel cymrodeddwr moesoldeb. Gallai fod yn ymddangos - o leiaf mewn damcaniaethau cyfraith naturiol fodern, gan gynnwys y rhai sy'n ymddangos yn Gatholig yn wreiddiol - bod moesoldeb yn dod yn ddyn-ganolog (anthroposentrig), ac yn sefydlu awdurdod moesol arall ochr yn ochr â gorchymyn Duw.

Am y rhesymau hyn a rhesymau eraill, mae wedi dod yn rhywbeth cyffredin i ddulliau y mae diwinyddiaeth Brotestannaidd ac ymagweddau cyfraith naturiol o ymdrin â moeseg gael eu gwrthwynebu yn anadferadwy.

Elfennau adferiad

Serch hynny, mae rhai ysgolheigion diweddar wedi awgrymu, yn groes i'r rhagdybiaeth hon, ei bod yn bosibl ac yn ddymunol - hyd yn oed yn angenrheidiol - i Brotestaniaid groesawu rhyw fath o gysyniad o'r gyfraith naturiol.

(1) Yn y lle cyntaf, bu dimensiwn hanesyddol i'r hawliad hwn, gydag amryw o ysgolheigion yn nodi, ymhell o fod yn meddwl ei fod yn anghydnaws gynhenid, hyd yn ddiweddar roedd diwinyddion Brotestannaidd yn wir yn cymryd *agwedd* cyfraith naturiol. Nodwyd rhesymu cyfraith naturiol yn achos John

Calvin a Martin Luther eu hunain (e.e. Herdt, 2014; Baker and Ehlike, 2011). Mae rhai ymdrechion cyfoes wrth adfer cyfraith naturiol gan yr ysgolheigion Brotestannaidd (a gafodd eu Diwygio i raddau helaeth, h.y. Calфинаidd) hefyd wedi cyfeirio at lu o feddylwyr ar draws y tair canrif gyntaf o Brotestaniaeth, sydd i raddau helaeth wedi mynd yn angof ers hynny (e.e. Grabill, 2006; Charles, 2008; VanDrunen, 2010).

Mae llawer o'r astudiaethau hyn ynghylch adferiad wedi awgrymu bod Karl Barth (efallai y prif ddiwinydd yn yr ugeinfed ganrif, o unrhyw draddodiad) wedi gwneud camgymeriad wrth wrthod cyfraith naturiol, neu o leiaf wrth wneud hynny mor ddiamwys ac mor rymus ag y gwnaeth. Mae hwn yn fater cymhleth iawn, nid lleiaf oherwydd bod rhesymau Barth dros wrthod diwinyddiaeth naturiol a chyfraith naturiol mor bwysig a difrifol yn ei gyd-destun ei hun (pan wnaed dadleuon o natur cyfraith naturiol i gefnogi'r Natsiaid). Sylwedd yr hawliad a wnaed gan y rhai sy'n cymryd Barth o ddifrif, ond sydd yn dal i fod eisiau adfer cyfraith naturiol, yw bod ei feirniadaeth o ddamcaniaeth cyfraith naturiol, er mewn sawl ffordd yn dal i fod yn graff, mewn gwirionedd yn cael ei chyfeirio at fersiwn benodol ohoni, a heb fod yn cynnwys holl resymu cyfraith naturiol.

Ymhlith y rhai hynny sy'n cymryd y safbwynt hwn, mae modelau hybrid amrywiol o foeseg wedi dechrau ymddangos sy'n cydnabod, yn lliniaru neu'n osgoi'r mathau o bryderon ynghylch cyfraith naturiol a amlinellir uchod. Mae rhai yn cyfuno rhai pwysleisiau Brotestannaidd nodedig gyda, er enghraifft, adferiad meddwl Awstin Sant. Mwy perthnasol fyth, fyddai ymddangosiad 'Thomistiaeth Brotestannaidd' - *Protestant Thomism* (term John Bowlin) neu 'Thomistiaeth

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

Barthaidd' - *Barthian Thomism* (e.e. Biggar, 2011 a Reed, 2013). Mae Bowlin, yn arbennig, wedi bod yn awyddus i wahaniaethu rhwng yr ymagweddau integreiddiol hyn a rhai ymagweddau eraill (yn fwy ceidwadol wleidyddol) o adfer cyfraith naturiol. Mae'n awgrymu bod Thomistiaid Protestannaidd cyfoes fel ef ei hun, ddim yn amau bod gan y rheswm ymarferol egwyddorion cyntaf [honiad craidd o theori cyfraith naturiol, sy'n adeiladu moesoldeb ar yr egwyddorion cyntaf hyn o resymu ymarferol], yn gwrthsefyll y syniad y gall egwyddorion cyntaf rhesymu ohonynt eu hunain greu cytundeb moesol concrid ymhlith y cymunedau dynol sydd wedi'i rannu'n bendant yn ôl amser a lle, diwylliant a chonfensiwn (gan dderbyn rhywbeth fel pryder Hauerwas). Er bod yr egwyddorion cyntaf yn gosod telerau pob sgwrs ac ystyriaeth foisol ddynol ... nid ydynt yn nodi canlyniad y naill na'r llall - [they] *'do not doubt that practical reason has first principles [a core assertion of natural law theory, which builds morality on these first principles of practical reason], do resist the notion that reason's first principles can, by themselves, generate concrete moral agreement among human communities sharply divided by time and place, culture and convention' (accepting something like Hauerwas's worry). Although first principles 'set the terms of all human moral conversation and deliberation ... they do not specify the outcome of either'* (Bowlin, 2002, p. 250). Er mwyn apelio at y gyfraith naturiol, yn y farn hon, er ei bod yn gyfreithlon o fewn moeseg Brotestannaidd, nid yw'n byrgylchu gweithrediad trafod moesol nac yn osgoi cyfyng-gyngor moesol. Yn wir, mae Bowlin yn nodweddu rhai mathau eraill o adfer cyfraith naturiol yn negyddol iawn, gan nodi eu bod yn defnyddio

rhesymu cyfraith naturiol am resymau 'rhyfeloedd-diwylliant' hiraethlon (tud. 251).

(2) Mae ail elfen mewn adferiad cyfraith naturiol yn elfen fwy athronyddol. Credwyd, yn aml, bod moeseg Brotestannaidd yn canolbwyntio ar *orchymyn dwyfol*. Mewn diwinyddiaeth a moeseg athronyddol ddiweddar, fodd bynnag, mae ymagwedd gorchymyn dwyfol wedi dod dan feirniadaeth ddifrifol oherwydd y nodweddion amlwg canlynol ynddi: (a) y gormesoldeb y mae'n ymddangos ei fod yn ei leoli yng nghanol moesoldeb; (b) ei darlun o Dduw fel gorthrymwr cyfnewidiol; (c) blaenoriaethu'r *cyfiawn* dros y *daioni*; (ch) y blaenoriaethu gwirfoddoliaethol cysylltiedig o ewyllys Duw dros reswm Duw, a'n hewyllys ni dros ein rheswm ni; a (d) ei ddiffyg pryder am ffyniant dynol, y mae systemau moesegol eraill (yn fras yn *ewdeomonig*) yn eu rhoi ar y blaen. (Mae ffyniant dynol yn gynyddol wedi dod yn destun pwnc diwinydda Protestannaidd, yn hytrach na gwrthrych ei amheuaeth, er bod sibrydion am ddyngasedd Protestannaidd yn gynharach yn aml wedi cael eu gorliwio - mae Protestaniaeth, o'r dechrau, yn ei ffordd ei hun, wedi bod yn draddodiad dyneiddiol.)

Ymhlith y diwinyddion a'r moesegwyr athronyddol Protestannaidd, mae Robert M. Adams, Nicholas Wolterstorff a John Hare (efallai y *prif* athronydd cyfoes o orchymyn dwyfol) i gyd wedi ceisio mewn rhai ffyrdd i gofrestru'r pryderon hyn ac addasu eu hadroddiadau, hyd yn oed os na fyddent yn cefnogi dychweliad trylwyr i gyfraith naturiol (gweler, e.e. Hare, 2015). Mae diwinyddion Protestannaidd, fodd bynnag, wedi tymheru'r math hwn o gydnabyddiaeth â thuedd i osgoi geirfa cyfraith naturiol, gan ystyried y gwadiad Barthaidd a thyniad anniwinyddol posib

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

o'r term; ac wedi ceisio gwneud llawer o athrawiaeth y *cread* wrth siarad am ddaioni moesol naturiol (gweler O'Donovan, 1994; datblygodd Barth ei hun foeseg ddiwinyddol y greadigaeth).

Mae'r ymagweddau hyn, fel y rhai hanesyddol, yn pwysleisio bod Protestaniaeth wedi addysgu syniad *helaeth* o bechod yn hytrach na syniad *dwys* - (an *extensive* rather than an *intensive* notion of sin), gan ddadlau bod y difrod a achosir gan bechod yn ymestyn i bob gallu naturiol a dynol (ac felly ag effeithiau *epistemolegol* ac *ontolegol*) ond nid yw'n eu dinistrio - gan ganiatáu lle i gyfraith naturiol (gweler Arner, 2016).

Casgliad

Rwyf wedi canolbwyntio yma ar feddylwyr Protestannaidd. Ond mae'n werth nodi hefyd fod y cyfeiriad teithio rhwng y traddodiadau moesol Catholig a

Phrotestannaidd wedi bod, yn ddiweddar, yn ddwy ffordd. Cafwyd ymdrechion parhaus gan feddylwyr Catholig, yn dilyn yn ôl troed Servais Pinckaers, i ymhelaethu ar y rhesymu Beiblaidd yng nghofnod Thomas o foesoldeb yn gyffredinol, a chyfraith naturiol yn arbennig (gweler Levering, 2008). Mae diwinyddion moesol Catholig eraill hefyd wedi tynnu'n ddwfn o ffynhonnau Barth. Nid yw pob meddwl Catholig yn apelio at gyfraith naturiol, ychwaith, ac mae llawer o'r rhai sy'n gwneud hynny yn ymwybodol o'i heriau difrifol.

Mae'r holl sgysiau hyn am gyfraith naturiol i ryw raddau yn dal heb eu datrys. Yn union fel y bydd y rheithgor ehangach yn dal i fod allan ynghylch dilysrwydd a defnyddioldeb dadleuon cyfraith naturiol, mae syniadaeth rheithgor Protestannaidd yn dal i ystyried hyn, hefyd.

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

Geirfa

Anthroposentrig (Anthropocentric):

Mae anthroposentrig yn golygu canolbwyntio ar ddynoliaeth fel bod yn ganolog; ac a ddefnyddir yn aml wrth sôn am ganolbwyntio ar ddynolryw, gan gau allan ein ffocws ar Dduw neu ar anifeiliaid eraill.

Damcaniaeth gorchymyn dwyfol (Divine command theory):

damcaniaeth feta-foesegol sy'n honni mai'r hyn sy'n gwneud gweithred yn dda yw ei bod wedi ei gorchymyn gan Dduw.

Epistemolegol (Epistemological): yn

gysylltiedig â ffyrdd o wybod a'u dilysrwydd.

Ewdeamonig (Eudaimonism):

athroniaeth foesol sy'n cysylltu camau cywir i les, yn y pen draw i hapusrwydd neu wynfyd.

Y Cwmp (Fall, the): yr athrawiaeth

Gristnogol bod dynoliaeth yn ei chael ei hun mewn cyflwr o anufudd-dod euog o flaen Duw.

Mae weithiau'n cyfeirio'n benodol at stori Adda ac Efa a'u hanufudd-dod yng Ngardd Eden (er y gellid deall hyn yn llythrennol neu'n ffigurol).

Cyfraith naturiol (Natural law): mewn dealltwriaeth draddodiadol, y rheol ymddygiad a ragnodir i ni gan y creawdwr yng nghyfansoddiad y natur sydd wedi ei rhoi i ni.

Ontolegol (Ontological): yn ymwneud â bodolaeth.

Gwirfoddoliaeth (Voluntarism): yn briodol mewn athroniaeth a diwinyddiaeth, y syniad mai ewyllys Duw yw'r ffactor amlwg mewn moeseg. O ran anthropoleg athronyddol neu ddiwinyddol, mae'r syniad mai ein hewyllys yw nodwedd flaenllaw ein natur, yn enwedig ein natur foesol.

(Awgrymir, yn aml, bod y darluniau (diffygiol) hyn o Dduw a bodau dynol â chysylltiad cryf rhyngddynt.)

Cysylltau

<http://www.newadvent.org/cathen/09076a.htm> (Kevin Knight, 2012, Catholic Encyclopedia)

<https://www.firstthings.com/article/1992/01/002-protestants-and-natural-law-1992>, Protestants and Natural Law)

<https://hughmccarthy.lawscienceasc.worpress.com/2015/01/03/a-summary-of-john-finniss-theory-of-natural-law/> (Hugh McCarthy, 2015, A Summary of John Finnis's Theory of Natural Law)

<http://www.nlnrac.org/contemporary/new-natural-law-theory/primary-source-documents/Natural-Law-God-Religion-and-Human-Fulfillment> (Grisez, Germain, 2001, Natural law, God, religion, and human fulfillment. *The American Journal of Jurisprudence*, 46(1))

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

Pwyntiau trafod

1. O ystyried yr hyn rydych chi'n ei wybod am ddiwinyddiaeth Brotestannaidd, a ydych chi'n credu y gall fod yn gydnaws ag ymagwedd cyfraith naturiol at foeseg?
2. Ydych chi'n gweld bod yr ymgais gan y rhai sy'n honni bod y gyfraith naturiol yn rhoi sail gyffredinol ar gyfer moesoldeb yn argyhoeddiadol? Beth ydych chi'n ei feddwl maen nhw'n ceisio'i gyflawni? Ydych chi'n gweld hyn yn ddefnyddiol?
3. Ydych chi'n meddwl y gall ymagweddau cyfraith naturiol drechu beirniadaeth sy'n dod o fewn diwinyddiaeth Gristnogol?
4. A yw'n bosib integreiddio ymagweddau cyfraith naturiol a dulliau gorchymyn dwyfol tuag at foeseg?

Cyfeiriadau

- Arner, N. (2016). Precedents and prospects for incorporating natural law in Protestant ethics. *Scottish Journal of Theology*, 69(4), 375-388.
- Baker, R., & Ehlke, R. (Eds.). (2011). *Natural law: A Lutheran reappraisal*. St. Louis, Missouri: Concord.
- Biggar, N. (2011). *Behaving in public: How to do Christian ethics*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Bowlin, J. (2002). Contemporary Protestant Thomism. In *Aquinas as authority* (pp. 235-51). Eds. P. van Geest, H. Goris, & C. Leget, Leuven: Peeters.
- Charles, J.D. (2008). *Retrieving the natural law: A return to moral first things*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Cunningham, L.S. (2009). *Intractable disputes about the natural law: Alasdair MacIntyre and critics*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.
- Grabill, S.J. (2006). *Rediscovering the natural law in Reformed theological ethics*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Hare, J. (2015). *God's command*. New York: Oxford University Press.
- Hauerwas, S. (1983). *The peaceable kingdom*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.
- Herdt, J. (2014) Calvin's legacy for contemporary Reformed natural law. *Scottish Journal of Theology*, 67(4), 414-435.
- Hittinger, R. (1988). *A critique of the new natural law theory*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.
- Levering, M. (2008). *Biblical natural law: A theocentric and teleological approach*. Oxford: Oxford University Press.

Protestaniaid a Chyfraith Naturiol

- MacIntyre, A. (2007, 3rd ed.). *After virtue: A study in moral theory*. Notre Dame, Indiana: University of Notre Dame Press.
- O'Donovan, O. (1994, 2nd ed.). *Resurrection and moral order: An outline for evangelical ethics*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Porter, J. (1999). *Natural and divine law: Reclaiming the tradition for Christian ethics*. Ottawa: Novalis.
- Porter, J. (2005). *Nature as reason: a Thomistic theory of the natural law*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Reed, E. (2013). *Theology for international law*. London: T & T Clark.
- VanDrunen, D. (2010). *Natural law and the two kingdoms: A study in the development of Reformed social thought*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans.
- Ziegler, P.G. (2011). The fate of natural law at the turning of the ages: Some reflections on a trend in contemporary theological ethics in view of the work of J. Louis Martyn. *Theology Today*, 67(4), 419-429.

Mae Samuel Tranter yn cwblhau PhD mewn diwinyddiaeth a moeseg ym Mhrifysgol Durham. Mae'n diwtor cyswllt ar gyfer Partneriaeth Hyfforddiant Rhanbarthol Lindisfarne, ac mae wedi cyflwyno a chyhoeddi papurau ar bynciau yn cynnwys y berthynas rhwng gobaith a diwinyddiaeth foesol, moeseg bywyd bob dydd a'r thema cysur mewn diwinyddiaeth gyfoes.

Naratifau Cynharaf am y Pasg

James Francis

Yn dilyn trosolwg cyd-destunol cryno, mae'r erthygl hon yn archwilio rhai mewnwelediadau allweddol o'r ddau safbwynt cynharaf o'r Testament Newydd ar yr Atgyfodiad gan Paul a Marc.

Cyswllt manyleb:

WJEC/CBAC/EDUQAS Uned 1: Dewis A – Cyflwyniad i Astudio Cristnogaeth, Thema 1: Ffigurau crefyddol a thestunau sanctaidd (rhan 1) Gwybodaeth a dealltwriaeth o grefydd a chred, B. Iesu - ei atgyfodiad.

EDEXCEL Papur 3 Astudio'r Testament Newydd.

OCR 2. Sylfeini Tarddiad a datblygiad Cristnogaeth, a'r ffynonellau doethineb y mae'n seiliedig arnynt, Person Iesu Grist.

Pe byddai rhywun yn holi beth yw neges ganolog y Testament Newydd byddai'n rhaid i'r ateb fod yr Atgyfodiad, sydd fwy neu lai wedi ei ragdybio ar bob tudalen ohono. Mae'n cadarnhau mewn amrywiol ffyrdd dynged Ôl-gwmpasog popeth sydd yn Nuw trwy Grist. Tra mae'n bosib beirniadu esboniadau ynghylch adfywiad corfforol Iesu, dwyn ei gorff (gan yr awdurdodau Iddewig neu gan ei ddisgyblion ei hun) neu hysteria'r merched a aeth at y bedd anghywir, cyn belled â dangos nad ydyn nhw brin yn gredadwy, ni ellir profi bod yr Atgyfodiad ei hun, wedi digwydd.

Pan edrychwn ni ar storïau'r Pasg yn y TN mae'r dystiolaeth yn dra gwahanol i'r rhai sy'n ymwneud â naratifau'r Dioddefaint. Gyda'r diwethaf, ceir fframwaith sylfaenol o draddodiadau cyffredin, tra bod y traddodiadau'n

amrywio yma: mae Iesu'n ymddangos i unigolyn ac i grŵp o bobl; mae'n ymddangos yn Jerwsalem ac yng Ngaliilea. Rhaid bod yr ymddangosiadau wedi digwydd dros gyfod o amser os ydym yn cynnwys (fel y dylem) brofiad Paul ar y Ffordd i Ddamascus.

Traddodiad yr Atgyfodiad

Gallwn nodi rhai tueddiadau penodol yn y traddodiad.

(1) *Ymestyniad o eiriau a llefaru.* Yng ngoleuni Actau 1:1ff, gallwn weld sut y digwydd y datblygiad o athrawiaethau Gnostig cyfrinachol a gyflwynodd Iesu cyn y gallai ei ddyrchafiad gael ei gyflawni.

(2) *Cymhelliant diffyniadol,* fel yn Mth. 27:62ff; 28:11, lle mae goruchwylwyr yn gwarchod y bedd yn wyneb yr honiadau bod y corff wedi cael ei ddwyn. Hyn

Naratifau Cynharaf am y Pasg

hefyd sydd i'w gyfrif am y tueddiad i bwysleisio natur gorfforol y Crist atgyfodedig (Luc 24:39-43; Ioan 20:20) dros wrth-honiadau'r Gnosticiaid, oedd â phrin ddiddordeb yn y corff yn gyffredinol, neu honiadau fod y disgyblion wedi cael profiadau o rithwelediadau.

(3) *Cael yr ymddangosiadau i gyd-fynd â chalendr yr eglwys* fel yn Ioan 20:26, neu ymdrech yr eglwys fel yn Mth. 28:16ff; Actau 1:4-8.

Yn nhermau tystiolaeth, yr un cadarnaf y gallwn gyfeirio ato yw'r traddodiad a ddyfynnir gan Paul yn ei epistol cyntaf at yr Eglwys yng Nghorinth - Cor. 15:3ff, a ysgrifennwyd oddeutu AD 54 ac felly yn gynharach na'r Efengylau (oni bai fod Ioan yn perthyn i ddyddiad cynharaf), ond yn dyfynnu traddodiad cynharach fyth. Defnyddia Paul iaith ffurfiol y traddodiad fel 'derbyniwyd' ac 'anfonwyd'. Fan hyn, Pedr yw'r un sy'n derbyn yr ymddangosiad cyntaf, tra bo'r Efengylau byth yn portreadu hwn fel yr ymddangosiad cyntaf. Mae un yn dyfalu, fodd bynnag, tybed a yw'r crynodeb wedi hidlo tystiolaeth y merched o ganlyniad i gymhelliannau patriarchaidd. Yn yr un modd, gall fod yn fwy o grynodedb sy'n canolbwyntio ar y prif bwyntiau ac awdurdod y dystiolaeth apostolaidd. Mae'n arwyddocaol fod Paul yn cynnwys ei weledigaeth ei hun, ac felly efallai bod y gwreiddiol wedi bod yn debyg i'r math hwn o brofiad yn ogystal. Mae tystiolaeth gadarn yn awgrymu bod yr ymddangosiad i 'fwy na phum cant' yn debycach i'r profiad a gafwyd adeg y Pentecost (cf. Ioan 20:22, pryd y mae cyswllt rhwng ymddangosiad Iesu a rhoi'r Ysbryd).

Cefndir

(1) Perthyn cefndir yr Atgyfodiad i'r cyfnod cyn-Gristnogol ac mae i'w ganfod mewn Iddewiaeth Phariseaidd yn neilltuol (gweler y drafodaeth ar briodas

lefraidd yn Mth. 22:24-33; cf. Deut. 25:5-10; Gen. 38:8ff).

Yn rhannol, gall hyn fod wedi tyfu o'r gobaith na ildiodd y merthyron Macabeaidd eu bywyd yn ofer, ond wedi cael eu cyfiawnhau gan Dduw. Sut bynnag, syniad diwinyddol yw hwn, yn anad dim: h.y. mae'n ymwneud â bwriadaeth Duw yn hytrach na genre stori o fywyd rhithiol tu hwnt i'r bedd (yn debyg i ddiwylliannau eraill, fel yn Homer neu Epig Gilgamesh). Roedd y Phariseaidd yn cynnig y gobaith a'r atgoffâd y byddai pob un ar ddiwedd oes yn cael eu dwyn gerbron sedd barn Duw (cf. Daniel 12:2). Yn y ffordd hon, byddai'n bosib mynd i'r afael â phroblem yn ymwneud â gormesu'r cyfiawn a fu farw heb iawn yn y bywyd hwn. Cawn adleisiau o hyn yn y TN. Yn arwyddocaol, Mth. 27:52 a'r stori ryfeddol am y saint y dod allan o'u beddau sy'n cael ei chysylltu â marwolaeth Iesu (yn hytrach na'i Atgyfodiad) fel moment y farn a'r gwirionedd eschatolegol (h.y. Diwedd-amser). Ac efallai y gallem nodi 1 Pedr. 2:23b, '... yn ei gyflwyno'i hun i'r Un sy'n barnu'n gyfiawn', fel esboniad ar hunanaberth Iesu yn ei obaith ef o ddeilliant cyfiawn gan Dduw.

Cafodd Iddewiaeth Phariseaidd anogaeth yng ngrym goruchaf Duw hyd yn oed dros farwolaeth. Yn ei Hysgrythurau roedd storiâu'n bodoli am bobl a gafodd eu hatgyfodi/adfywio (e.e. gwellhad proffwydol Elias, gydag Elias ei hun yn cael ei gipio i fyny i'r nefoedd a gweledigaeth Eseciel o esgyrn sychion Israel). Gallwn hefyd efallai gael hyd i'r taflwybr hwn o obaith yn y TN, pryd y gwelir gwyrthiau Iesu ei hun fel 'atgyfodiadau' yng ngrym y deyrnas. Mae awdurdod Duw fel brenin dros farwolaeth yn ogystal â bywyd (fel Lasarus, yn Ioan 11:1-44).

Felly, mae'r Atgyfodiad yn sôn yn anad dim am weithred Duw. Tuedda'r TN i sôn

Naratifau Cynharaf am y Pasg

llawer mwy am Dduw yn cyfodi Iesu o farwolaeth yn hytrach nag am Iesu yn cyfodi o farwolaeth. Yn ôl N. T. Wright, mae hyn yn nodi nad yw'r atgyfodiad (yn anad dim) yn ymwneud â bywyd arall ar ôl y bywyd hwn - '*an after life to this life*' [(*what happens when we die*), but *Life in God as the basis of the transformation of the world*] (Wright, 2011).

(2) Roedd atgyfodiad a dyrchafiad yn ardystiadau amgen yn y traddodiad cynnar – mae Iesu'n marw a chaiff ei atgyfodi, neu mae Iesu'n marw a chaiff ei ddyrchafu. Gan hynny mae iaith o oleuni ac uchder yn rhoi sylw cyfartal fel disgrifiadau o'r profiad.

(3) Yn wreiddiol roedd traddodiad y bedd gwag yn cylchredeg yn annibynnol o naratifau'r Atgyfodiad ac yna yn cael ei adeiladu i mewn i'r diwethaf. Digwydd hyn yn arbennig yn Marc a Mathew. Efallai bod naratif y bedd gwag yn cynrychioli'r gair hanesyddol olaf am yr hyn sy'n anhepgorol yn brofiad anhanesyddol. Mae atodi naratif y bedd gwag yn rhoi rhywfaint o wrthbwynt hanesyddol i honiad o ffydd.

Pwyntiau dehongli

(1) Ar gyfer y TN, (a) Nid rhywbeth sydd wedi cael ei ychwanegu'n syml at fywyd Iesu yw'r Atgyfodiad, fel y byddai'n rhywbeth newydd ar haen wahanol, ond mae'n ymwneud ag ystyr hanesyddol ei fodolaeth ei hun sydd yn dod i gyflawniad; a (b) ni ellir gwahanu'r Atgyfodiad oddi wrth genhadaeth a neges Iesu (cf. Ioan 20:29).

(2) Fel profiad gall yr Atgyfodiad arwain at ofannu cymuned - yn ieithwedd Paul, mae Crist fel 'blaenffrwyth' a ddaw oddi wrth y meirw yn cael ei gysylltu â gwaith yr Ysbryd, a ddisgrifir fel 'ffrwyth'. (Noder nad yw Paul yn sôn am 'ffrwythau'r Ysbryd' ond am 'ffrwyth yr Ysbryd' fel unigol corfforedig.)

(3) Nodweddir neges Iesu am deyrnas Dduw gan y syniad o gyflawniad Duw yn torri trwodd i'r presennol. Mae cred yr eglwys mewn Atgyfodiad yn parhau'r syniad hwn o arwyddocâd cosmig Crist ar gyfer popeth, gan sylweddoli ei hun ym mywyd y byd.

Yr adroddiadau cynharaf

1 Cor. 15:3-8 a Marc 16:1-8 yw'r cofnodion cynharaf, yn y drefn honno.

1 Cor. 15:3-8

Yma mae Paul yn gwrthdweud yr honiad fod yr Atgyfodiad eisoes wedi mynd heibio (cf. 4:11-13 a 2 Tim. 2:18), ac o ganlyniad yn atgoffa'r eglwys o gyflawniad yn y dyfodol a barn Duw ar fywyd a thystiolaeth Gristnogol. Cynnwys y bennod hefyd nodyn o gysur i'r rhai hynny sydd ag amheuan am yr Atgyfodiad, yng ngoleuni'r credinwyr sydd eisoes wedi marw. Yn y traddodiad a drosglwyddir gan Paul, mae'r dywediad 'yn ôl yr Ysgrythurau' yn adnodau 3 a 4 yn ymddangos fel eu bod yn ychwanegiad deongliadol gan broses trosglwyddo'r eglwys. Mae'r dywediad 'iddo gael ei gladdu' yn gadarnhad o'r ffaith fod Iesu wedi marw, a'r dywediad 'ac iddo ymddangos' yn gadarnhad ei fod wedi ei gyfodi. Gallwn nodi'r ffordd y mae'r profiad o'r Atgyfodiad yn gorfodi newid yn y gramadeg - 'bu farw Crist / claddwyd Crist' yn yr amser gorffennol cyflawn (a elwir yn aorist yn yr iaith Roeg); ond mae 'cyfodwyd Crist' yn y gwir amser perffaith (h.y. yn ddigwyddiad sydd â'i arwyddocâd nid yn y gorffennol cyflawnedig ond sydd yn parhau). Caiff y gramadeg ei gyfyngu gan y profiad. Mae'n pwysleisio bod 'Crist wedi ei gyfodi ac yn fyw yn awr'.

Mae'r geiriau 'fe ymddangosodd' yn adnodau 8 a 9.1 yn codi'r cwestiwn am y math o ymddangosiad a pha beth a welwyd.

Naratifau Cynharaf am y Pasg

(a) Pa fath o ymddangosiad?

Yma gall y berfau (Groeg: *heoraka* / *ôphthê*) ymdrin ag ystod eang o ganfyddiadau o'r meddylol i'r corfforol. Pe byddem yn mynd rhagddi trwy ddilead, fe allem ddweud y canlynol.

(i) Mae'n golygu 'canfyddiad ymenyddol'. Felly, mae 'gweld' Iesu yr un fath â'r hyn sydd yn Gal. 1:15ff, 'Ond dyma Dduw ... yn dewis datguddio ei fab ynof fi'.

Atgyfodiad yw gwawr y gwirionedd yng ngalwad Paul ei hun, h.y. rhywbeth yn debyg i sylweddoliad o alwedigaeth. Eto mae'r berfau hyn yn yr iaith Roeg Feiblaidd bob amser yn cyfleu gweledigaeth, h.y. rhywbeth y mae unigolyn yn credu y mae ef/hi yn ei weld mewn gwirionedd.

(ii) Felly, gallem ddweud ei fod yn ganfyddiad corfforol, ac eto i Paul mae hefyd yn golygu profiad mewnol (Gal. 1:16). Yn ogystal, mae'r adroddiadau gwahanol am brofiad Paul ar y Ffordd i Ddamascus (Actau 9:3ff; 22:6ff; 26:12ff) yn awgrymu fod cyfarfyddiad personol Paul ei hun - yr hyn y mae'n ei weld, sydd ddim ar gael i eraill o'i gwmpas.

(iii) Mae hyn yn gadael profiad gweledol - pa un ai ei fod yn rhywbeth cyfan gwbl fewnol neu fod yn ymwneud â rhywbeth 'allan yno' ni allwn fod yn siŵr. Ond mae'r dystiolaeth yn ymddangos fod y profiad wedi dal Paul yn gyfan gwbl yn ddiarwybod a'i fod ef yn argyhoeddedig mai rhywbeth/rhywun a welodd. Nid digwyddiad a achoswyd ganddo ef oedd hwn, ond un a ddigwyddodd iddo ef yn gyfan gwbl annisgwyl, ac a newidiodd ei fywyd.

Gallwn atgyfnerthu hyn trwy gyfeirio at y canlynol:

(i) Nid oedd unrhyw beth ym meddwl Paul i'w baratoi - cf. 15:8 lle mae'n cyfeirio ato'i hun 'fel i ryw erthyl o apostol - un a anwyd yn gynamserol' (yn yr iaith Roeg '*ektrôma*') sy'n awgrymu

sydynrwydd/diffyg cyfnod cario. Mae'r trosiad hwn yn un rhyfedd i Paul ei ddefnyddio. Y broblem yw na wnaeth Paul gyrraedd yn rhy gynnar ond yn rhy hwyr, fel petai. Mae rhai ysgolheigion yn meddwl fod Paul yn cyfeirio yma at wawd y mae eraill wedi ei wneud yn ei erbyn, efallai gyda chyfeiriad at ei ymddangosiad corfforol fel 'dyn bach eiddil' (cf. 2 Cor. 10:10) neu yn ehangach fel mewnfudwr - heb fod yn un o'r rhai a oedd yn rhan o gwmniaeth Iesu. Efallai bod rhywrai yn cyfeirio at Paul fel rhywun 'od'? Ond mae'r min hwn yn perthyn i'r trosiad, sef bod profiad Paul yn annisgwyl. Fel un oedd yn Pharisead, byddai Paul wedi credu ymlaen llaw yn y syniad o Atgyfodiad cyffredinol, ac yr oedd yn ddiarnheuol yn ymwybodol bod yr eglwys fore yn sôn am Grist atgyfodedig. Ond nid dyma'r hyn yr oedd yn ei ragweld.

(ii) Mae'r ferf *ôphthê* yn y modd goddefol, ac yn dynodi bod y cam cyntaf yn aros â'r hyn a welwyd ac nid gyda'r sawl sy'n gweld. Mewn gwirionedd mae 'Ymddangosodd' yn golygu 'dangosodd ei hun' yn hytrach na 'cafodd ei weld gan' (cf. Gal. 1:12 'trwy ddatguddiad Iesu Grist' = datguddiad o/gan Iesu ohono'i hun, fel genidol goddrychol yn hytrach na genidol gwrthrychol: h.y. datguddiad Iesu ohono'i hun, yn hytrach nag Iesu fel cynnwys datguddiad 'amdano ef').

(iii) Mae Paul yn gwahaniaethu rhwng y profiad hwn a phrofiadau ysbrydol eraill. Mae'n ei atodi'n eithaf anhunanymwbybodol at y rhestr o ymddangosiadau Atgyfodiad ac nid yw'n gwybod am unrhyw ymddangosiadau ar ôl hyn. Mae ei honiad, 'Gwelais' (*I have seen*) (*heoraka* yn yr amser perffaith yn yr iaith Roeg), yn arwyddo profiad cychwynnol sy'n diffinio'i apostoliaeth ac yn ffurfio cwrs ei fywyd wedi hynny.

Naratifau Cynharaf am y Pasg

(b) Beth a welwyd?

I Paul yn syml iawn Iesu (wedi ei ogoneddu) oedd yr hyn a welwyd, ac nid yw yn unman yn mynd ati i'w ddisgrifio (cyferbynnwch Dat. 1:12ff). Rhaid i ni gymryd yn ganiataol bod Paul yn gwybod mai Iesu oedd - roedd rhywbeth yn y profiad a gafodd oedd yn cadarnhau iddo mai Iesu a welodd, pa un ai a oedd Paul yn wir wedi gweld Iesu o'r blaen ai peidio. Yr hyn y daeth Paul wyneb yn wyneb ag ef oedd goleuni llachar â'i dallodd ynghyd â chanfyddiad yn yr un foment, yn ôl Actau (cf. 2 Cor. 4:6), ac o safbwynt Iddewig byddai hyn yn ddisgrifiad o amlygiad Duw (2 Cor. 3:18; 4:4; cf. Phil. 3:21 'yn ei gorff gogoneddus'). Gall tawedogrwydd Paul fod yn ganlyniad y ffaith nad oedd unrhyw fanylyn arall ar gael (cymharwch storïau'r Gweddnewidiad yn yr Efengylau Synoptig), neu oherwydd nad oedd disgrifio'r profiad yn wirionedd eschatolegol. Roedd Paul yn argyhoeddedig ei fod wedi gweld 'gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist' (2 Cor. 4:6), gan nodi sut mae'r ddau (Duw a Christ) â chyswllt annatod â'i gilydd, a'i fod yn brofiad anghymharol ag unrhyw brofiad arall yn ei fywyd dilynol.

Marc 16:1-8

Mae'r diwedd hwn (diwedd gwreiddiol Efengyl Marc yn ôl pob tebyg) yn anodd, nid y lleiaf am fod y gorchymyn yn adn.7 heb ei gyflawni gan y merched, er ei fod yn dwyn ar gof 14:28. Efallai mai ystyr orau y geiriau, 'Ac aethant ymaith ac ni ddywedasant ddim wrth neb' yw, mewn gwirionedd, 'Ac ni wnaethant yngan gair â neb ar y ffordd yn ôl'. Fe allai hefyd fod wedi bod yn gyfeiriad trosiadol at y rhyfeddod mawr sydd yn dod i ran tystion sydd wedi dod wyneb yn wyneb â Diwedd popeth, y realiti eschatolegol sy'n syfrdanu rhywun i fudandod. Wedi'r cyfan, ofn Duw yw dechrau pob doethineb.

Yn nodedig, nid hanesyn i brofi'r

Atgyfodiad yw'r un am y bedd; y cyfan a wna yw creu penbleth, ac mae'n ofynnol i'r angel ddatgan cyswllt (cf. Ioan 20:1ff, pryd y mae Mair yn mynd ymlaen i alaru a rhedeg ymaith mewn dryswch wrth iddi ddarganfod y bedd yn wag). Nid yw'r darganfyddiad yn arwain at ffydd ynddo'i hun nac ohono'i hun.

Mae naratif y bedd gwag yn cydsefyll â naratif yr Atgyfodiad. (Nid oes, fel mater o ffaith, ymddangosiad Atgyfodiad dim ond cyfeiriad at addewid, fel yn 14:28.) Mae gan Luc 24:34 hefyd agwedd o Gristoffani, yn annibynnol o naratif y bedd. Mae dichonoldeb naratif y bedd yn gorwedd i raddau ar ddealltwriaeth os cyfodwyd Crist, rhaid mai gwag fyddai'r bedd. Ond mae'r Gristoleg gynharaf yn ein dwyn ni'n ôl at gyfiawnhad Iesu yn dilyn gwrthodiad. Gall fod mai'r neges ddatblygol (*kerygma*) yr eglwys a dynnodd draddodiad y bedd gwag iddi fel cefnogaeth ddidactig, er nad yw hynny yn trosglwyddo unrhyw sylw ei hun ar ddibynadwyaeth hanesyddol naratif y bedd. Mae'n anodd dweud nad aeth neb yn ôl i gael golwg ar y bedd (cf. Ioan 11:39 - claddwyd Iesu am lai na phedwar diwrnod). Wrth gwrs, nid yw absenoldeb corff yn brawf o Atgyfodiad. Mae hyn yn ein harwain ni at drafodaeth ar natur yr Atgyfodiad. Mae'r TN yn sôn am atgyfodiad y corff yn hytrach na'r 'crawd' (cf. trafodaeth ymestynnol Paul yn 1 Cor. 15:12ff). Ond mae'n bosib fod traddodiad y bedd gwag yn un cynnar, uned o draddodiad Atgyfodiad oedd yn cylchredeg yn gyfochrog â naratifau'r Atgyfodiad, ac a ddaeth yn ddiweddarach ynghlwm wrthynt.

Mae sefydlu lleoliad i ymddangosiadau'r Atgyfodiad yn drafferthus. Pwysleisia Marc a Mathew Galilea, tra bod Luc ac Ioan yn canolbwyntio ar Jerwsalem. Ceisiodd rywrai ddatrysiad ar sail gwyliau pererindodol: h.y. gyda'r disgyblion yn ymadael ar ddiwedd y Pasg Iddewig ac

Naratifau Cynharaf am y Pasg

yn dychwelyd ar y Pentecost. Ond efallai na ellir cysoni'r adroddiadau. Yn hytrach maent yn adlewyrchu diddordeb arbennig yr Efengylau neu eu cymunedau gwaelodol. Yn unol â hynny, maent yn gweu'r profiad o'r Atgyfodiad i mewn i'w cyd-destunau neilltuol eu hunain.

Casgliad

Ar gyfer yr eglwys fe gadarnhaodd deinamig yr Atgyfodiad bresenoldeb eschatolegol Duw yng Nghrist, a chlymu hyn yn agos ac yn annatod i waith yr Ysbryd mewn addoliad, tystiolaeth a gwasanaeth.

Yn unol â hynny, ni wahaniaethodd o reidrwydd, rhwng dywediadau hanesyddol a datguddiedig. Credai Paul a'r disgyblion eraill eu bod yn llefaru gydag awdurdod y Crist presennol, ac felly y gallai dywediadau, athrawiaethau

moesegol, anogaethau a rhybuddion proffwydol ddod at ei gilydd fel 'geiriau a lefarais' ar gyfer yr eglwys ac oddi mewn iddi. Mae'r adnod yn Luc 24:44, 'pan oeddwn eto gyda chwi', yn adlewyrchu rhywfaint o ymwybyddiaeth am y paradocs. Awgryma Marc 9:38ff fod rhywfaint o ymwybyddiaeth o ddyrchafiaeth Iesu yn bodoli yn y cefndir mewn ymbil er trechu ysbrydion drwg. Yn rhan o'r broses ynghlwm wrth y traddodiad trosglwyddo, nid yw amser yr eglwys o reidrwydd yn cael ei wahaniaethu oddi wrth amser Iesu (Mth. 7:21/Luc 6:46; Mth. 18:20), ac o ganlyniad gallwn ganfod dadleuon a thrafodaethau'r eglwys yn amlygu eu hunain oddi mewn i naratifau yn perthyn i athrawiaethau a gweithredoedd Iesu ledled yr Efengylau (e.e. yn rhai o'r damhegion a'u deilliannau).

Geirfa

Diffyniaeth (Apologetics): gweithio esboniad ac amddiffyniad cred neu athrawiaeth benodol.

Cristoleg (Christology): yr athrawiaeth neu'r astudiaeth o berson Crist.

Gnostig (Gnostic / Gnostics): o'r Groeg *gignōskō* sy'n golygu 'gwybod / dod i wybod'; cred mewn

gwybodaeth arbennig neu gudd esoteric sy'n dod â iachawdwriaeth.

Eschatolegol (Eschatological): o'r Groeg *eschatos* sy'n golygu 'olaf', y mae'n rhaid iddo fod yn ymwneud â'r Diwedd dichonadwy (o realiti cyffredin).

Cysylltau

<http://rowanwilliams.archbishopofcanterbury.org/articles.php/1380/risen-indeed-the-resurrection-in-the-gospels> 'Risen Indeed': The Resurrection in the Gospels)

<http://www.thinkinganglicans.org.uk/archives/000556.html> (Rowan Williams, 2004, Easter Sermon)

Naratifau Cynharaf am y Pasg

Pwyntiau trafod

1. Sut ydych yn credu bod yr eglwys fore wedi dod i ddeall ystyr atgyfodiad er cynnwys nid yn unig dynolryw ond y drefn greadigol yn ei chyfanrwydd (Rhufeiniaid 8:19-24; Colosiaid 1:15-20; cf. Diarhebion 8:22-36)?
2. Cymharwch a chyferbynnwch y gred Gristnogol mewn atgyfodiad gyda'r syniad o gyflawniad a fynegir yng nghrefyddau eraill y byd.
3. Mae Paul yn crybwyll atgyfodiad y corff fel rhywbeth neilltuol ar wahân i atgyfodiad y cnawd (Rhufeiniaid 8:9-11; 1 Corinthiaid 15:35-58). Beth yw eich dealltwriaeth o'r gwahaniaeth hwn?

Cyfeiriadau

- Dunn, J.D.G. (2003). *Jesus remembered*. Grand Rapids, Michigan: Eerdmans, tt. 821-879.
- Kretzer, L.J. (1993). Resurrection. In *Dictionary of Paul and his letters* (tt. 805-812). Eds. G.F. Hawthorne, R.P. Martin & D.G. Reid, Leicester: IVP.
- Osbourne, G.R. (1992). Resurrection. In *Dictionary of Jesus and the Gospels* (tt. 673-688). Golln. J.B. Green, S. McNight & I.H. Marshall, Leicester: IVP.
- Travis, S.H. (1997). Resurrection. In *The Dictionary of the Later New Testament and its developments* (tt. 1015-1020). Golln. R.P. Martin & P.H. Davids, Leicester: IVP.
- Wright, N.T. (2011). *Surprised by hope: Rethinking heaven, the resurrection, and the mission of the church*. London: SPCK.

Mae'r Parchedig Athro James Francis yn ganon dibreswyl yng Nghadeirlan Durham ac yn gymrawd ymweliadol yng Ngholeg Sant Ioan, Durham. Roedd yn uwch-ddarlithydd Astudiaethau'r Testament Newydd ym Mhrifysgol Sunderland, ac yn ddiweddarach yn Bennaeth Cwrs Gweinidogaeth Ordeiniedig Leol Esgobaeth Durham. Mae ei gyhoeddiadau yn cynnwys golygyddiaeth y gyfres o lyfrau, Religions and Discourse, (Peter Lang), llyfr ar blentyndod yn yr hen fyd, cyfrol ar weinidogaeth hunangymorth a chyfraniadau i eiriaduron Beiblaidd.

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

Emily Pollard

Mae'r erthygl hon yn trafod diffiniad Thomas Aquinas o achos cyfiawn dros ryfel, ac mae'n cynnig beirniadaeth o'i ddadl.

Cyswllt manyleb:

EDEXCEL Uned 1 Sylfaen, Maes B Moeseg, 2 Astudio materion rhyfel a heddwch. AQA 2B Cristnogaeth, Ymddygiad da ac egwyddorion moesol allweddol.

Yn ôl damcaniaeth rhyfel cyfiawn, er mwyn i ryfel gael ei ystyried yn gyfiawn un o'r gofynion pwysicaf yw achos cyfiawn. Mae damcaniaethwyr rhyfel cyfiawn yn egluro beth yw achos cyfiawn trwy restru enghreifftiau o achosion cyfiawn posib. Mae rhai o'r rhain yn deillio o ddiffiniadau ac enghreifftiau sydd wedi eu cynnig gan ddamcaniaethwyr rhyfel cyfiawn cynnar fel Awstin Sant (Augustine), a oedd yn dadlau fel a ganlyn: *'just wars are defined as those which avenge injuries ... or to return something that was wrongfully taken'* (Augustine, 1983, t. 135).

Fe ddiffiniodd Thomas Aquinas ryfel cyfiawn fel un o'r ddau reswm canlynol, ond gan ychwanegu eglurhad paham fod y rhesymau hyn yn cyfiawnhau rhyfel - mae hyn oherwydd, dadleua, bod y camweddau a achoswyd, - *[the] 'wrongs inflicted'* neu'r ffaith bod rhywbeth (tiriogaeth neu asedau, efallai) wedi ei

feddiannu'n anghyfiawn - *'seized unjustly'* yn golygu y dylid ymosod ar y rhai sy'n ymosod, oherwydd eu bod yn ei haeddu - *'those who are attacked, should be attacked because they deserve it'* (Aquinas, 1947, t. 1360). Dyma'r eglurhad yr wyf yn bwriadu ei ddadansoddi yn yr erthygl hon.

Disgrifiad Aquinas o achos cyfiawn

Felly mae disgrifiad Aquinas o achos cyfiawn yn datgan bod gan rywun achos cyfiawn os yw'r gelyn yn ei haeddu oherwydd rhyw fai - *'deserve it on account of some fault'* (1947, t. 1360). Mewn geiriau eraill, mae'r cyfiawnhad dros ryfel y bydd achos cyfiawn yn cael ei gynnig yn un sydd wedi ei sylfaenu nid ar safbwynt moesol y wlad sydd yn ystyried a oes ganddi achos cyfiawn dros ryfel, ond ar safbwynt moesol *y wlad y maen nhw'n ystyried rhyfela yn ei herbyn*. Os yw'r diwethaf yn *'haeddu'* ymladd yn

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

ei herbyn, yna mae gan rywun achos cyfiawn i ymladd yn ei herbyn.

Mae'n ymddangos mai'r cyfiawnhad dros ryfel a gynigir gan achos cyfiawn, yn ôl y disgrifiad hwn, yw'r un sy'n seiliedig ar haeddiant y grŵp diwethaf i ryfela yn ei erbyn er mwyn ei gosbi am ei gamweddau neu i gywiro'i ffaeleddau. Yn ôl y dehongliad hwn, felly, nid oes achos cyfiawn penodol gan Wledydd A, B ac yn y blaen i fynd i ryfel yn erbyn Gwlad C; y pwynt yw, yn hytrach, mae'n gyfiawn i fynd i ryfel yn erbyn Gwlad C. I'w roi mewn geiriau eraill, mae achos testun-annibynnol cyfiawn i fynd i ryfel yn erbyn Gwlad C yn bodoli ar gownt rhyw fai – *'on account of some fault'*.

Ateb Aquinas' i'r cwestiwn o'r hyn yw'r bai – *'fault'* sy'n golygu bod gwlad yn haeddu – *'deserve'* ymosodiad milwrol yw cyfeirio at yr achosion cyfiawn a restrir gan Awstin. Fe awgrymodd Awstin achosion fel: rhyfel i ddychwelyd yr hyn a ddygwyd ar gam – *'return something that was wrongfully taken'*, i ddial am niweidiau – *'avenge injuries'* ac i ddwyn cosb am gamwedd a gyflawnwyd gan ddinasyddion [gwlad y gelyn] – *'punish a wrong committed by [the enemy country's] citizens'*, pe byddai arweinwyr neu lywodraeth y wlad honno wedi esgeuluso *'neglected'* gwneud hynny eu hunain (Augustine, 1983, t. 135). O'r achosion cyfiawn arfaethedig hyn, gallwn weld fod diffiniadau Aquinas o fai – *'fault'* a fyddai'n golygu bod gwlad yn haeddu – *'deserve'* ymosodiad (1947, t. 1360) yn cynnwys:

(1) niweidiau - *'injuries'* yn erbyn gwledydd eraill, fel cyrch ymosodol diachos, neu oresgyniad o'r wlad a niweidiwyd gan y niweidiwr;

(2) meddiannu'n anghyfiawn- *'unjustly seizing'* rhywbeth sy'n eiddo i wlad arall

neu bobl eraill - er enghraifft tiriogaeth, neu fywydau'r dinasyddion, rhyddid neu fodd o gynhaliath; a

(3) cosb – *[the] 'punishment'* am y camweddau sydd yn gyfrifoldeb y wlad sy'n niweidio i gosbi neu i rwystro, ond a fethodd wneud hynny – efallai oherwydd ei bod hi (neu ei harweinwyr) yn ymwneud â'r camwedd *'wrong'* neu'n elwa ohono.

Rhyfel fel cosb am gamwedd a wnaed

Mae'r trydydd bai – *'fault'* sy'n dwyn sylw Aquinas, ac sy'n cyfeirio at gamwedd a achosir – *'wrong inflicted'* gan ddinasyddion gwlad ar wlad dan sylw sydd wedi methu â chosbi, angen diffiniad pellach. Mae enghreifftiau amlwg, sydd wedi eu derbyn gan lawer o ddamcaniaethwyr rhyfel cyfiawn ar wahân i Awstin ac Aquinas, yn cynnwys treisgyrch diachos yn erbyn, neu oresgyniad cydgenedl a darostyngiad, camdriniaeth neu gyflafan yn erbyn grwpiau eraill o bobl oddi mewn i'r genedl honno, sydd naill ai'n weithred a noddir gan y wladwriaeth neu a anwybyddir gan y wladwriaeth.

Ond mae categori arall o 'gamwedd - wrong' sy'n cael ei gadarnhau gan Awstin mae'n ymddangos, sef un am: gamwedd crefyddol – *'religious wrong'*. Mae'n ysgrifennu, er enghraifft, *'it is not permissible to doubt that it is right to undertake a war which men undertake to wage under God's authority either to strike terror into, wear down, or subdue the pride of mortals'* (Augustine, 2007, t. 352).

Mae'r camweddau – *'wrongs'* yn y categori cyntaf, fel treisgyrch neu ddarostyngiad, yn gamweddau yn erbyn pobl y gellir yn sicr eu cyfrif yn gamwedd – *'wrong'*. Mae'r ail bosibilrwydd, fodd

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

bynag, sydd yn cynnwys rhyfeloedd a ymleddir dan awdurdod Duw – ‘*under God’s authority*’ er mwyn darostwng balchder meidrolion – ‘*subdue the pride of mortals*’, yn ymddangos ei fod yn awgrymu rhyfel sy’n cael ei ymladd i gosbi rhyw ogwyddiad oddi wrth gynlluniau Duw neu ei orchmynion, fel llygredd – ‘*corruption*’ moesol gwirfoddol ymhlith dinasyddion gwlad (adlais o’r stori Feiblaidd am Sodom a Gomorra), a allai, yng ngeiriau Awstin, eu helpu i ymarfer amynedd a darostwng yr enaid - ‘*help them in practicing patience and in humbling the soul*’ (2007, t. 352). Felly, mae’r camweddau – ‘*wrongs*’ y mae Awstin yn dadlau ein bod yn eu gweithredu’n gyfiawn pan ymladdwn ryfel i gosbi – ‘*punish*’ a chywiros – ‘*correct*’ (dadl y mae Aquinas yn parhau i fanylu arni ond heb ei newid yn sylweddol) y *ddau* beth yn weithredoedd sydd yn foisol anghywir am resymau ôl-ddilydol (fel treisgyrch), a gweithredoedd sydd, y mae’n dadlau, yn foisol anghywir oherwydd eu bod yn mynd yn groes i’r gyfraith ddwyfol – ‘*divine law*’.

Y broblem gyda’r ail gamwedd – ‘*fault*’ hwn yw’r un mwyaf amlwg (o leiaf yng ngolwg pobl yr ugeinfed ganrif, o leiaf); ac felly rwyf am egluro hynny’n gryno. Mae crefydd, mewn sawl ffordd, yn safon foisol anaddas i’w thrafod yn gyffredinol. Roedd Aquinas (ac Awstin) yn credu bod y ffordd Gristnogol o fyw wedi ei phenodi’n ddwyfol – ‘*divinely appointed*’, wedi ei sefydlu gan Dduw fel yr *unig* ffordd gywir i *bob* dyn a dynes (nid Cristnogion yn unig) fyw. Mae’r gred hon bod rheolau a gorchmynion Duw yn ansoddi cyfraith ddwyfol – ‘*divine law*’ sy’n datgan ei bod hi’n foisol anghywir i’w torri, ac yn eu harwain i drafod y camwedd – ‘*fault*’ fel pe byddai yn safon foisol absoliwt, ddiarnheul. Nid yn unig fod hyn yn amheul, ond mae’n llethr

llithrig peryglus sy’n arwain tuag at ryfel grefyddol absoliwt.

Beth mae’n ei olygu i 'haeddu' cael rhywun yn rhyfela yn erbyn rhywun arall?

Hyd yn oed os yw troseddiadau yn erbyn yr hyn oedd Aquinas yn ei ystyried fel yr un gwir - ‘*true*’ grefydd yn cael eu heithrio o’r rhestr o gamweddau - ‘*faults*’, fodd bynnag, mae ei ddadl yn parhau’n broblemus, fel y nododd A. J. Coates. Ysgrifennodd Coates feirniadaeth ar ddamcaniaeth unochrog draddodiadol - ‘*one-sided and exaggerated emphasis on just cause*’ dros ryfel cyfiawn. (Coates, 1997, t. 146), ond rwy’n credu bod y feirniadaeth hon yn weithredol fel gwrthwynebiad i’r ddadl bod rhyfeloedd cyfiawn yn gyfiawn oherwydd bod y wlad sy’n destun rhyfel yn ei herbyn yn haeddu - ‘*deserves*’ cael ei chosbi am ei chamweddau trwy ymosodiad milwrol. Ysgrifennodd Coates ynghylch y perygl i lywodraethau neu wledydd ildio i orfoledd a brwdfrydedd moesol o blaid rhyfel fyddai’n trosglwyddo rhyfel cyfiawn - ‘*just*’ yn rhyfel “sanctaid” neu grwsâd, sydd â mwy yn gyffredin â thraddodiad milwrol na gyda thraddodiad rhyfel cyfiawn. Mae Coates yn dadlau bod tueddiadau fel hynny yn gallu cael eu creu gan bwyslais ar yr achos cyfiawn ar draul pob maen prawf *jus ad bellum* arall, oherwydd yr argyhoeddiad llwyr fod eu hachos yn gyfiawn - ‘*absolute conviction that their cause is just*’ yn gallu arwain pobl at agwedd beryglus (1997, t. 146).

Fodd bynnag, rwy’n credu bod ymladd rhyfel yn unig oherwydd argyhoeddiad – ‘*conviction*’ fod y gelyn, o’i gyd-drafod, yn euog o droseddau amrywiol neu gamweddau – ‘*faults*’ yn gallu cynhyrchu safbwyntiau gorfoleddus – ‘*triumphalist*’ o’r un modd. Dyma yw’r achos p’run ai camweddau – ‘*faults*’ crefyddol neu

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

foesol ydynt, (fel trachwant, trwy ddwyn tiriogaeth neu adnoddau gwlad arall); balchder – ‘*pride*’ sydd angen ei ddarostwng – ‘*subduing*’; tueddiad diwylliannol tuag at ymddygiad ymosodol; neu arferion sy'n wrthnysig o'u gosod ochr yn ochr â safonau moesol eu hunain (er enghraifft, priodas orfodol). Felly, pan honnir bod rhyfel yn gyfiawn oherwydd bod y gelyn yn *haeddu* cael ymosodiad yn ei erbyn, am fod rhywbeth o'i le arnynt fel pobl a bod rhaid eu cosbi – [*must be*] ‘*punished*’ am eu gweithredoedd gan wledydd sy'n meddu ar foesoldeb uwchraddol, mor hawdd yw hi i lithro i argyhoeddiad absoliwt – ‘*absolute conviction*’ bod rhyfel dros achos o'r fath nid yn unig yn gyfiawn – ‘*justified*’ ond yn sanctaidd – ‘*holy*’ - am ei bod yn rhyfel yn erbyn pobl sy'n ei haeddu – ‘*deserve it*’, y troseddwy, y drygionus rai – ‘*the evildoers*’, y rhai hynny sy'n gyflawniad o ddrygioni – ‘*the consummation of evil*’ (Coates, 1997, t. 146).

Un eglureb posib o'r perygl gyda'r math hwn o argyhoeddiad allai fod yn ymwneud â'r Almaen Natsïaidd, oherwydd gellid dadlau bod ymgyrch Hitler yn erbyn yr Iddewon â llawer o elfennau a oedd yn ymdebygu i ryfel. Fe ddadleuodd Jeffrey Herf, er enghraifft, ‘*the war against the Jews was in their [the Nazis'] mind synonymous with World War II*’ (Hurf, 2006, t. 264). Roedd Hitler a'i ddilynwyr hefyd wedi eu hargyhoeddi yn yr un modd bod yr Iddewon yn haeddu ymladd yn eu herbyn - ‘*fought*’, ac yn fuan cafodd yr argyhoeddiad hwnnw ei ddilyn gan argyhoeddiad, yr un mor nerthol, sef eu bod rywfodd yn gynhenid ddrygionus.

Y broblem llethr llithrig

Yn yr enghraifft hon, byddai rhyfeloedd (neu ymgyrchoedd casineb nad oeddynt

yn filwrol) yn cael eu hymladd tu hwnt i'r pwynt pryd y bydden nhw yn arferol wedi dod i ben, yn bennaf oherwydd y syniad fod y gelyn yn haeddu pob peth oedd yn dod i'w ran. Pa gymhellion amddiffynnol bynnag a fyddai o bosib wedi bod yn rhan o hyn, ac wedi cael eu dirdroi a'u hystumio gan y syniad hwn, fel (yn esiempl y Natsïaid, er enghraifft) heb y gred fod y gelyn mewn rhyw ffordd yn ddrwg - ‘*evil*’ efallai y byddai llai o ofn, neu hyd yn oed ddim ofn bod y gelyn yn beryglus.

Mae Coates yn diffinio'n gryno y rheswm pam y mae'r cyfryw agweddau fel gorfoledd moesol a brwdfrydedd moesol dros ryfel – ‘*moral triumphalism and moral enthusiasm for war*’ yn annymunol. Mae'n dadlau bod agweddau o'r fath yn annog rhyfelwyr ar faes y gad i ddiystyru cyfyngiadau moesol rhyfel neu esgeuluso ystyriaethau moesol eraill o bwys, fel y gost o fynd i ryfel a thywallt gwaed y diniwed - ‘*encourage combatants to override the moral limits of war or to neglect other equally weighty moral considerations, such as the costs of war or the shedding of innocent blood*’. Mae hyn yn bod oherwydd y syniad hwn, sy'n cael ei annog gan y diffiniad hwn o achos rhyfel cyfiawn (fod y gwrthwynebydd – ‘*adversary*’ y daw wyneb yn wyneb ag ef mewn brwydr yn gyflawniad drygioni – ‘*the consummation of evil*’), yn gallu arwain rhyfelwyr ar faes y gad i gredu, os yw gorchfygu gelyn mor ddrwg yn golygu torri un neu ddwy o reolau cyfiawn ymddygiad milwrol, yna bydd gwneud hynny dros ddaioni yn dderbnyiol.

Mae hyn oherwydd bod y diffiniad o achos cyfiawn fel y ffaith bod y gelyn yn ‘haeddu – ‘*deserves*’ cael ymosodiad yn ei erbyn ar gownt rhyw gamwedd – ‘*on account of some fault*’ (Aquinas) hefyd yn golygu fod y gelyn rhywun yn haeddu

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

cael ei orchfygu yn yr ymosodiad, oherwydd os yw gwrthwynebydd rhywun yn haeddu bod yn darged ymosodiad milwrol yna mae'n dilyn bod y gwrthwynebydd hwnnw yn haeddu colli'r rhyfel dilynol. Gall y syniad o'i euogrwydd, ei 'haeddiant' i wynebu brwydr a chael ei orchfygu, arwain at yr hyn a ddisgrifia Coates fel, *'the absolute conviction that ... the adversary against whom [one] fight[s] is the consummation of evil'*; ac, felly, tuag at yr argyhoeddiad bod yn ofynnol gorchfygu'r gwrthwynebydd hwn ar bob cyfrif: bod y rheolau o ymddygiad cyfiawn mewn rhyfel yn gallu cael eu diystyru gyda'r angen i orchfygu gelyn o'r fath, gelyn sydd, os yw'r achos yn un cyfiawn, yn haeddu cael ei orchfygu.

Mae'r broblem gynhenid ynghylch diffiniad o achos cyfiawn sy'n gyrru llywodraethau a rhyfelwyr ar faes y gad weithiau i gyfiawnhau diystyru cyfyngiadau ynghlwm wrth *jus in bello*, pa bryd bynnag y daw yn anghenraid i ennill rhyfel â chyfryw achos cyfiawn, yn eglur. Cafodd rheolau'r *jus in bello* eu sefydlu i ddangos bod rhai mathau o ymddygiad yn foesol annerbyniol mewn unrhyw ryfel, cyfiawn neu anghyfiawn. Os yw diffiniad Aquinas o achos cyfiawn

yn cael ei dderbyn, yna byddai'r sylfaen dros gyfiawnhad mynd i ryfel ar bwys gweithredoedd drygionus neu natur y gelyn, ynghyd â'r ffaith mai'r diwedd naturiol ar gyfer sylfaen am gyfiawnhad yw gorchfygu'r math hwnnw o elyn yw'r prif amcan, yn beryg o roi i unrhyw un a fyddai'n derbyn y safbwynt hwn, y byddai'r syniad bod gan achos cyfiawn flaenoriaeth i ddiystyru dros ystyriaethau moesol eraill megis ymddygiad cyfiawn ryfel - *'just cause has overriding priority over other moral considerations such as the just conduct of war'*. Mae hwn yn llethr llithrig peryglus, sy'n golygu bod rhyfeloedd 'cyfiawn - just' y debygol o ddirywio i fod y rhyfeloedd mwyaf gwaedlyd a threisgar.

Felly, mae'n ymddangos yn eglur fod y syniad mai'r diffiniad delfrydol o achos cyfiawn yw'r un o achos sy'n cyfiawnhau gydag atebolrwydd am ryfel fel modd o'i gyflawni, ond *nid* yw'n cyfiawnhau mynd ati i gyflawni unrhyw fath ar ryfel er mwyn cyrraedd ati; achos, yn fyr, y gellir ei wrthod gan jus yn bello yn hytrach na'r ffordd arall. Mae'n eglur hefyd nad diffiniad felly yw diffiniad Aquinas o achos cyfiawn.

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

Geirfa

Ôl-ddilynlol - Consequentialist: eiriolwr o theori foesegol ganlyniadol, sy'n datgan bod moesoldeb unrhyw weithred yn dibynnu'n llwyr ar werth ei ganlyniadau.

Jus ad bellum: Cyfres o feini prawf y mae'n rhaid eu cyflawni, yn ôl theori rhyfel cyfiawn, i unrhyw un gael ei gyfiawnhau wrth ddatgan rhyfel - gan gynnwys achos cyfiawn, awdurdod dilys a chyfle rhesymol o lwyddiant.

Jus in bello: Rheolau moesol sy'n cyfyngu ar gamau a thactegau milwrol sy'n cael eu caniatáu yn foesegol mewn rhyfel.

Cysylltau

<https://plato.stanford.edu/entries/aquinas/> (Ralph McInerney, 2014, Saint Thomas Aquinas, Stanford Encyclopedia of Philosophy)

<https://plato.stanford.edu/entries/aquinas-moral-political/> (John Finnis, 2017, Aquinas' Moral, Political, and Legal Philosophy, Stanford Encyclopedia of Philosophy)

<http://www.iep.utm.edu/aquinas/> (Thomas Aquinas, Internet Encyclopedia of Philosophy)

Pwyntiau trafod

1. Beth ydych chi'n ei feddwl o'r rhestr o 'feiau'- *faults* y byddai Aquinas yn dadlau a fyddai'n cyfiawnhau rhyfel yn erbyn y wlad a wnaeth eu cyflawni? A fydddech chi'n anghytuno ag unrhyw un ohonyn nhw?
2. Ar ba sail y gallech chi ddadlau y gellid cyfiawnhau ymateb milwrol i atal a chywiro 'beiau' gwlad arall?
3. Ydych chi'n cytuno bod llethr llithrig yn deillio o'r honiad bod gan rywun achos cyfiawn ar gyfer rhyfel dim ond os yw'r gelyn yn *haeddu* rhyfel yn ei erbyn? Pam?

Thomas Aquinas ac Achos Cyfiawn dros Ryfel

Cyfeiriadau

Aquinas, Thomas. (1947). *Summa Theologica*, Trans. Fathers of the English Dominican Province. New York: Benziger Bros.

Augustine, St. (1983). Questions on the Heptateuch (part X, book VI). In *The early fathers on war and military service*. Ed. and trans. Louis J. Swift. Wilmington, Delaware: Michael Glazier.

Augustine, St. (2007). *Answer to Faustus, a Manichean*, Trans. Roland Teske, Ed. Boniface Ramsey. New York: New City Press.

Coates, A.J. (1997). *The ethics of war*. Manchester: Manchester University Press.

Herf, Jeffrey. (2006). *The Jewish enemy: Nazi propaganda during World War II and the Holocaust*. Cambridge, Massachusetts; London: Bellknap Press of Harvard University Press.

Ymchwilydd a thiwtor wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Durham yw Emily Pollard, PhD. Ei maes yw moeseg rhyfel, yn canolbwyntio'n benodol ar ddamcaniaeth rhyfel cyfiawn. Mae hi wedi cyhoeddi papurau yn Philosophical Writings a The Routledge Handbook of Ethics and War (Golygyddion. Fritz Alhoff, Nicholas Evans ac Adam Henschke).